# Cyfarfod Panel Cadeiryddion - POC(2)-07-04

## Dydd Mawrth 5 Hydref, 17.00 – 18.20, Ystafell Bwyllgora 2

### Yn Bresennol

- Yr Arglwydd Elis-Thomas, Y Llywydd
- Peter Black, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Rosemary Butler, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon
- Janice Gregory, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
- Christine Gwyther, Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
- Alun Ffred Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
- Ann Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
- David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwenda Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
- Paul Silk, Clerc y Cynulliad
- Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
- Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu’r Cynulliad
- Peter Jones, Cwnsler i Bwyllgorau’r Cynulliad
- Adrian Green, Ysgrifennydd Preifat i’r Llywydd
- Jacqui Bowen, Pennaeth Cyswllt â’r Cyfryngau, Gwasanaethau Cyfathrebu’r Cynulliad
- Lara Date, Dirprwy Glerc Pwyllgorau

### Ymddiheuriadau

- Sandy Mewies, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol
- Janet Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

### Cyflwyniad

1. Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan y Llywydd.

### Eitem 1 – Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf. Cytunodd y Panel y byddai’r cofnodion yn y dyfodol yn cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd Panel y Cadeiryddion ar y fewnrwyd ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.**

## Eitem 2 – Materion yn Codi

2.1 Roedd y Panel yn fodlon gyda threfn yr agenda, sef cymryd eitemau i'w trafod ac eitemau i adrodd arnynt ar wahân.

2.2 Adroddwyd bod Aelodau wedi canfod bod yr hyfforddiant craffu ar gyllidebau wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, adroddwyd y byddai'n fuddiol mewn sesiynau yn y dyfodol i fwy o amser gael ei glustnodi ar gyfer y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Roedd Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau wedi cynnig briffio Aelodau unigol a'u staff, a dywedwyd bod hynny o gymorth sylweddol i'r broses graffu ac y byddai'n gymorth i ddatblygu'r berthynas rhwng Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a staff cymorth.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i adrodd am sylwadau'r Panel ar graffu cyllidebol i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.**

2.3 Trafododd y Panel y dasg o brif ffrydio cydraddoldeb. Adroddodd David Melding fod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i ofyn i bennaeth Canolfan GIG dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol i'w briffio ar sut i wella eu dull prif ffrydio.

2.4 Adroddodd Gwenda Thomas fod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi ystyried blaenraglenni gwaith Pwyllgorau eraill ac wedi awgrymu y gallai Cadeiryddion pwyllgorau pwnc fynychu'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal i esbonio'n fanylach sut roedd eu pwyllgor yn prif ffrydio cydraddoldeb.

2.5 Yn y drafodaeth dywedodd y Cadeiryddion eu bod yn fodlon mynychu'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ond gofynnwyd am ganllawiau pellach. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Karin Phillips fod ansawdd briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn agored i asesu oedd yn sicrhau bod cydraddoldeb yn cael sylw, ond cydnabu y byddai ymchwilwyr a Chlercod yn cael budd hefyd o dderbyn canllawiau pellach.

**Gweithredu: Cadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i ddarparu canllawiau pellach i'r Panel ynghylch prif ffrydio cydraddoldeb mewn Pwyllgorau.**

2.6 Byddai Gwasanaeth Cyfathrebu'r Cynulliad a Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn cael cyfle i weld arddangosiadau o opsiynau meddalwedd e-ddemocratiaeth yr wythnos nesaf, a dylai Aelodau roi gwybod i Gwen Parry os oes ganddynt ddiddordeb mewn gweld arddangosiad. Byddai rhaglen beilot yn cael ei threfnu unwaith roedd y meddalwedd wedi'i sefydlu ac wedi'i brofi. Dywedodd Peter Black ei fod yn awyddus i fod yn rhan o gynllun peilot ynglyn â defnyddio e-ddemocratiaeth ar gyfer adolygiadau polisi Addysg a Dysgu Gydol Oes, gan ddweud bod y dull hwn o gyfathrebu yn arbennig o ddeniadol i bobl ifanc ac yn gyfrwng da i'w cynnwys yn y datblygiad.

**Gweithredu: Aelodau'r Panel i hysbysu Gwen Parry os oes ganddynt ddiddordeb mewn gweld cyflwyniad ar ddefnyddio meddalwedd e-ddemocratiaeth.**

## Eitem 3 – Craffu

3.1 Trafododd yr Aelodau y materion yn y papur o'u blaen:

- Trefniadau paru ar gyfer sesiynau craffu ar y cyd gyda'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig: cytunwyd mai mater i'r Pwyllgor Busnes oedd hyn.
- Rhag-gyfarfodydd: cytunwyd y gallai'r rhain fod yn ddefnyddiol cyn sesiynau craffu neu sesiynau casglu tystiolaeth. Adroddodd Gwenda Thomas fod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn cynnal sesiynau rhag-gyfarfod yn rheolaidd gyda Gwahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor, ac roedd y cyfryw rag-gyfarfodydd yn ddefnyddiol iawn.
- Maint cyfarfodydd: derbyniwyd yn gyffredinol y byddai pwyllgorau llai yn gymorth i ymdrin â baich gwaith yr Aelodau, ond mynegwyd peth pryder na fyddai pleidiau lleiafrifol yn cael eu cynrychioli ar bob pwyllgor. Cytunodd y Panel mai mater i'r Pwyllgor Busnes oedd hyn.
- Is-bwyllgorau craffu: caed peth cefnogaeth i sefydlu is-bwyllgorau ar gyfer ymweliadau, i graffu ar gyrff allanol a Gweinidogion, er y mynegwyd peth pryder y byddai'r is-bwyllgorau yn arwain at gynnydd yn y baich gwaith ac y byddent yn anodd i'w hamserlennu.
- Y system rapporteur: roedd hon eisoes yn cael ei defnyddio'n llwyddiannus gan rai pwyllgorau, a byddai'r Panel yn derbyn adroddiadau cyson.
- Symleiddio agendâu Pwyllgorau: er i hyn gael ei gefnogi mewn egwyddor, dywedwyd ei fod yn anodd i'w gyflawni yn ymarferol.
- Cydgysylltu gyda rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio: awgrymwyd y gallai hyn gynnwys gwneud sylwadau ar raglen waith y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Archwilio i roi gwybod i'r pwyllgorau am adroddiadau perthnasol gan y Pwyllgor Archwilio, a phwyllgorau i fonitro'r cynnydd a bennir yn ymatebion Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiadau hyn.
- Ymdrin ag adroddiad y Comisiynydd Plant: cytunodd y Panel y dylid awgrymu eto i'r Pwyllgor Busnes y dylid sefydlu pwyllgor ad hoc ar ran y Cynulliad i gyd ar gyfer ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant.
- Protocol ar gyfer ymateb y Llywodraeth i adroddiadau pwyllgor: mynegwyd peth pryder nad oedd unrhyw hyblygrwydd yn y protocol ynghylch amseru'r pedwar cam.
- Trafod Adroddiadau Pwyllgor: mynegwyd pryder y Panel ynghylch y diffyg amser i drafod adroddiad y pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, sef 'Tai ar gyfer Pobl Hyn', ar 29 Medi, ac awgrymwyd y dylid diogelu amser mewn Cyfarfod Llawn ar gyfer dadleuon ar adroddiadau pwyllgor ar adolygiadau polisi. Cytunwyd y byddai'r Llywydd yn codi pryderon y Panel gyda Chadeirydd y Pwyllgor Busnes a'r Gweinidog Busnes.
- Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog: roedd y Panel yn cefnogi'r cynnig ac yn cymeradwyo'r camau nesaf sy'n cael eu pennu yn atodiad 4 y papur. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

**Gweithredu: (1) Yr Ysgrifenyddiaeth i lunio rhestr o'r holl faterion y byddai'r Llywydd yn eu codi gyda Chadeirydd y Pwyllgor Busnes a'i ddosbarthu i'r Panel i gael ei sylwadau yn ystod yr wythnos ganlynol. (2) Y Llywydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes yn gofyn am gyfarfod i drafod y materion a godwyd. (3) Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau i fwrw ymlaen â'r cynnig i sefydlu pwyllgor ar gyfer Craffu ar Waith y Prif Weinidog fel y pennwyd yn Atodiad 4 y papur**.

## Eitem 4 – Gohebiaeth Pwyllgorau

4.1 Cytunwyd y byddai Cadeiryddion Pwyllgorau'n derbyn crynodeb cyson o ohebiaeth, fel y pennwyd yn y papur ar gyfer yr eitem hon.

**Gweithredu: Y Clercod i baratoi crynodebau cyson o'r gohebiaethau a dderbyniwyd er mwyn i Gadeiryddion ystyried y crynodeb a chyflwyno materion arwyddocaol i sylw Aelodau'r Pwyllgor.**

## Eitem 5 – Codi Proffil Pwyllgorau

5.1 Croesawyd y cynnydd yn y sylw a gaed yn y wasg ac ar y cyfryngau, yn arbennig yn ystod cyfnod y toriad. Cynhaliwyd cyfarfod buddiol yn ddiweddar rhwng Aelodau o'r wasg a'r cyfryngau yng Ngogledd Cymru, er ei bod yn siomedig nad oedd y Daily Post yn bresennol. Awgrymwyd y gellid cysylltu â theledu Granada a BBC North West yn Lloegr oedd yn darparu gwasanaeth i Ogledd Ddwyrain Cymru.

5.2 Mynegwyd rhai pryderon ynghylch lefelau presenoldeb yn y sesiwn galw i mewn a drefnwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ym mhabell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Awgrymwyd y dylid rhoi sylw i ddarparu cyfieithu llawn ym mhob cyfarfod a drefnir gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad i'w gynnal mewn Eisteddfodau.

**Gweithredu: Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau a Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad i ystyried sut i wella presenoldeb mewn cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r pwyllgorau.**

## Eitem 6 – Gweithio ar y cyd gyda'r Pywllgor Dethol ar Faterion Cymreig

6.1 Adroddodd y Llywydd y byddai cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn cael ei gynnal ar 14 Hydref, ac mai sesiwn tystiolaeth lafar gydag Andrew Davies, AC, fyddai'r cyfarfod hwnnw, fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig i Weithgynhyrchu a Masnach yng Nghymru.

6.2 Mewn cyfarfod ar y cyd anffurfiol ar brynhawn dydd Llun 1 Tachwedd yng Nghaerdydd, byddai'r Panel yn cael cyfle i drafod pa feysydd potensial y gellid eu cynnwys yn y dyfodol mewn craffu ar y cyd gyda'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Byddai union amser y cyfarfod yn cael ei gadarnhau. Gofynnwyd i Gadeiryddion anfon at Karin Phillips unrhyw awgrymiadau ynghylch pa destunau potensial y gellid eu cynnwys mewn gweithio ar y cyd.

6.3 Adroddodd David Melding fod yr Arglwydd Carlile, Cadeirydd y Cydbwyllgor ar y Mesur Iechyd Meddwl Drafft, wedi ysgrifennu ato yn gwahodd barnau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Mesur drafft. Dywedodd, er mai dim ond gweithio ar y cyd mewn modd anffurfiol gyda'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a ganiateid gan y trefniadau

presennol, y byddai canfyddiadau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu cyfleu mewn adroddiad ysgrifenedig i'r Cyd-bwyllgor Seneddol, a byddai ef, ac efallai un neu ddau o aelodau eraill y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn rhoi tystiolaeth lafar.

**Gweithredu: (1) Yr Ysgrifenyddiaeth i gadarnhau amseriad cyd-gyfarfod y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar 1 Tachwedd. (2) Y Cadeiryddion i anfon unrhyw awgrymiadau ar gyfer craffu ar y cyd neu rannu gwybodaeth gyda'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig at Karin Phillips**.

## Eitem 7 – Dyddiadau ac Agendâu Arfaethedig ar Gyfer Cyfarfodydd y Panel yn y Dyfodol

7.1 Nodwyd y rhain. Dywedwyd y byddai Stephen Thomas, Cyfarwyddwr CLlLC, yn mynychu'r cyfarfod a gynhelir ar 7 Rhagfyr yn hytrach na 9 Tachwedd.

7.2 Cytunwyd y byddai cyflwyniad gan 'Un Llais' cyn iddynt fynychu cyfarfod Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (LGPS).

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i gydgysylltu gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch amseriad y cyflwyniad Un Llais gerbron y Panel.**

## Eitem 8 – Unrhyw Fater Arall

8.1 Atgoffodd David Melding ei gydweithwyr y byddai cyfarfod Rhwydwaith Ewropeaidd Comisiynwyr Plant yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd ar 13 Hydref.

8.2 Cytunwyd y byddai 'eitemau'r Cadeiryddion' yn agenda sefydlog mewn cyfarfodydd yn y dyfodol ac y byddai'r eitemau hynny'n cael sylw ar ôl 'Materion yn Codi'.

**Gweithredu: Y Cadeiryddion i anfon unrhyw eitemau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol at Karin Phillips yn uniongyrchol neu drwy law Clercod y Pwyllgorau.**

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**Hydref 2004**